**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MD/PO/234/2025

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1NA

16 Mai 2025

Annwyl Peredur


Fel y gwyddoch, yn gynharach eleni, gofynnodd Prif Weinidog Cymru i Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi, yn dilyn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a'r Canghellor, fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cytuno ein cynnig ac y bydd yn diddymu'r terfyn tynnu i lawr ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru yn 2025-26.

Mae'r hyblygrwydd hwn wedi'i ddarparu ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn unig ac mae'n caniatáu mynediad heb gyfyngiad at gyllid sydd eisoes wedi'i roi yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru. Felly, er ei fod yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i reoli pwysau eleni, nid yw'n ffynhonnell cyllid rheolaidd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd y swm sydd ar gael i'w dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2025-26 yn cael ei gadarnhau unwaith y ceir cadarnhad o alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau hyblygrwydd cyllidol pellach a byddaf yn rhoi gwybod ichi am gynnydd y trafodaethau hyn.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth ddiweddaraf hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.